

SL(5)572 - Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) (Diwygio) 2020

Cefndir a Diben

Mae Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) (Diwygio) 2020 ("y Rheoliadau Diwygio") yn diwygio Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 ("Rheoliadau mis Ebrill 2020") i wneud darpariaeth dros dro bellach mewn perthynas â chyfarfodydd awdurdodau lleol a mynediad y cyhoedd a'r wasg at y cyfarfodydd hyn yn ystod pandemig COVID-19.

Mae Rheoliadau mis Ebrill 2020 yn addasu gofynion presennol mewn perthynas â chyfarfodydd awdurdodau lleol (gan gynnwys cyfarfodydd awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau Parciau Cenedlaethol) am gyfnod penodedig, i leihau risgiau i awdurdodau lleol wrth gynnal busnes ac i sicrhau y gall eu haelodau a'u swyddogion weithredu yn unol â'r canllawiau iechyd swyddogol. Roedd Rheoliadau mis Ebrill 2020 hefyd yn ceisio lleihau'r risg i'r cyhoedd a'r wasg drwy alluogi neu ei gwneud yn ofynnol i nifer o weithgareddau gael eu cynnal yn electronig yn hytrach nag wyneb yn wyneb neu drwy wasanaethau post.

Mae'r Rheoliadau Diwygio hyn yn gwneud darpariaeth bellach ar gyfer yr un dibenion hyn ac yn gwneud addasiadau sy'n codi o ganlyniad i Rheoliadau mis Ebrill 2020. Mae'r Rheoliadau Diwygio hefyd yn diwygio rheoliad 9 o Rheoliadau mis Ebrill 2020 sy'n ymwneud â'r hyblygrwydd i awdurdodau lleol gynnal cyfarfodydd penodol.

Gweithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd

Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro nad oes ymgynghoriad cyhoeddus wedi'i gynnal mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn oherwydd bygythiad difrifol y coronafeirws. Serch hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriadau cynghori gyda chynrychiolwyr awdurdodau lleol, cyrff sy'n cynrychioli llywodraeth leol yng Nghymru a chyrff eraill.

Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn egluro nad oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i gynnal ymhellach i God Asesiad Effaith Rheoleiddiol Gweinidogion Cymru ac yn sgil yr angen i wneud y Rheoliadau Diwygio hyn ar fyrder.



Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim.

Ymateb y Llywodraeth

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 13 Gorffennaf 2020 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd uchod.



Senedd Cymru

Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

—

Welsh Parliament

Legislation, Justice and Constitution Committee